**Senedd Cymru**
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

# Cylchlythyr Gwanwyn 2024

Annwyl gyfeillion,

Croeso i gylchlythyr cyntaf erioed y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, sy'n ymdrin â thymor y gwanwyn, 2024. Mae'n rhoi blas o'r hyn rydym wedi bod yn ei wneud ers dechrau'r flwyddyn newydd a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud dros weddill tymor y gwanwyn.

Rydym yn awyddus i ennyn diddordeb cynifer â phosibl yn ein gwaith ac rydym bob amser yn ceisio gwella'r modd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, felly os hoffech roi sylwadau ar ein cylchlythyr, cysylltwch â ni yn seneddhinsawdd@senedd.cymru



**Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd**

## PWY YDYM NI A BETH RYDYM YN EI WNEUD?

Cafodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei sefydlu gan y Senedd i ystyried polisi a deddfwriaeth, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn meysydd penodol. Rydym yn ymdrin ag amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd, ynni, cynllunio, trafnidiaeth, a chysylltedd. Mae gan y Pwyllgor chwe aelod sy'n dod o'r gwahanol bleidiau sy'n cael eu cynrychioli yn y Senedd.

# HYD YN HYN Y TYMOR HWN

Mae wedi bod yn dymor prysur i'r Pwyllgor yn barod. Dyma rydym wedi'i wneud hyd yn hyn:

- **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25:** Buom yn craffu ar gynigion cyllideb y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar gyfer 2024-25. Cafodd ein hadroddiad ei gyhoeddi ar 5 Chwefror. Cynhaliodd y Senedd ddadl ar y gyllideb ddrafft ar 6 Chwefror, a bydd y gyllideb derfynol yn cael ei thrafod ar 5 Mawrth. Byddwch chi'n gallu gwylio'r drafodaeth ar Senedd.TV
- **Adroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru:** Yn dilyn adroddiadau am ddirywiad ym mherfformiad Dŵr Cymru a'r sylw a roddwyd yn y cyfryngau'n ddiweddar i 'achosion anghyfreithlon o ollwng carthion heb eu trin', cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda rheoleiddwyr a chynrychiolwyr Dŵr Cymru yn nhymor yr hydref. Gallwch ddarllen ein hadroddiad sy'n cynnwys argymhellion i Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Oftwat.
- **Gwaith glo brig Ffos-y-Fran:** Yn gynnar ym mis Ionawr, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Newid Hinsawdd y gofyn am wybodaeth am rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag adfer y safle, a hynt y gwaith hwnnw, y cytundebau sydd ar waith ar gyfer gwaith tebyg a'r hyn sy'n cael ei wneud i helpu gweithwyr i drosglwyddo i gyfleoedd cyflogaeth newydd. Bydd ymateb y Gweinidog yn caniatáu i'r Pwyllgor gynllunio'r camau nesaf y bydd yn eu cymryd.



## BIL SEILWAITH (CYMRU):

Mae'r Bil yng Nghyfnod 3 ar hyn o bryd a thrafodwyd y gwelliannau yn y Pwyllgor ar 22 Chwefror 2024. Nid oes dyddiad ar gyfer trafodion Cyfnod 3 wedi'i gadarnhau eto.

## BIL YR AMGYLCHEDD (ANSAWDD AER A SEINWEDDAU) (CYMRU) 2024:

Mae'r Ddeddf Ansawdd Aer a Seinweddau yn awr yn gyfraith. Cafodd ei selio gan y Prif Weinidog a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Chwefror 2024.



# GWAITH SYDD AR Y GWEILL

- **Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy:** Ym mis Mawrth, bydd y Pwyllgor yn cynnal digwyddiad i randdeiliaid yn ogystal â sesiynau tystiolaeth gyda rhanddeiliaid allanol mewn perthynas â Chynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Caiff rhagor o wybodaeth ei chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor maes o law.

- **Adroddiadau blynyddol:** Yn ystod tymor y gwanwyn bydd y Pwyllgor yn ystyried ei adroddiadau blynyddol ar Drafnidiaeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

# Y PWYLLGOR YN Y CYFRYNGAU

Dyma restr o erthyglau perthnasol yn y cyfryngau a oedd yn cyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd:

- **Y BBC:** Achosion anghyfreithlon o ollwng carthion / Ymddiheuro i gefnogwyr pêl-droed Cymru yn dilyn oedi ar y rheilffyrdd ar ôl gemau
- **Caerphilly Observer:** Aelodau o'r Senedd yn holi penaethiaid Trafnidiaeth Cymru
- **Wales Online:** Dweud wrth Dŵr Cymru fod angen iddynt wella'u perfformiad y dilyn gollyngiadau anghyfreithlon, llygredd a phroblemau cyflenwi
- **Nation Cymru:** Trefniadau rheoleiddio amgylcheddol gan Lywodraeth Cymru yn 'annigonol', yn ôl Aelodau o'r Senedd
- **Nation Cymru:** Un o bwyllgorau'r Senedd yn ceisio atebion gan Lywodraeth Cymru ynghylch cloddio yn Ffos-y-Frân
- **Route One:** Mae masnachfreinio bysiau yng Nghymru yn sbarduno allyriadau sero, yn ôl gweinidog

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

https://x.com/SeneddHinsawdd

0300 200 6565

www.senedd.cymru/Seneddhinsawdd

Hoffech chi i ni beidio ag anfon rhagor o negeseuon e-bost atoch chi? Os nad ydych chi am gael cylchlythyrau gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith mwyach, atebwch yr e-bost hwn gyda'r gair "dad-danysgrifio".

**Welsh Parliament**
Climate Change, Environment and Infrastructure Committee

# Spring 2024 Newsletter

Dear colleagues,

Welcome to the Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee's first ever newsletter, which covers spring term 2024. It gives a flavour of what we've been doing since the start of the new year and what we plan to do for the remainder of the spring term.

We're are keen for as many people to engage with our work as possible and are always looking to improve how we engage stakeholders and the public with our work, so if you'd like to provide feedback on our newsletter, please get in touch at seneddclimate@senedd.wales.



**Llyr Gruffydd MS, Chair**

## WHO WE ARE AND WHAT WE DO?

The Climate Change, Environment and Infrastructure Committee has been set up by the Senedd to scrutinise policy and legislation, and to hold the Welsh Government to account in specific areas. We cover a wide range of areas, including climate change, the environment, energy, planning, transport, and connectivity. We have six Members who come from the different parties represented in the Senedd.

# SO FAR THIS TERM

It's already been a busy term for the Committee. This is what we've done so far:

- **The Welsh Government Draft Budget 2024-25:** We scrutinised the Minister and Deputy Minister for Climate Change on their budget proposals for 2024-25. Our report was published on 5 February. The Senedd debated the draft budget 6 February, and the final budget will be discussed on 5 March. You'll be able to watch it on Senedd.TV
- **Report on performance of Dŵr Cymru:** Following reports of a decline in Dŵr Cymru's performance and recent media coverage of 'illegal spillages of untreated sewage', the Committee held evidence sessions with regulators and with representatives of Dŵr Cymru in the Autumn term. You can read our report with recommendations to Dŵr Cymru, the Welsh Government, Natural Resources Wales and Oftwat.
- **Ffos-y-Fran opencast coalmine:** Early in January the Committee wrote to the Minister for Climate Change requesting information on the role of the Welsh Government in relation to the site's restoration and progress, agreements in place for similar operations and the transition of workers to new employment opportunities. The response from the Minister will allow the Committee to plan its next actions moving forward.



## INFRASTRUCTURE (WALES) BILL:

The Bill is currently at Stage 3 and consideration of amendments took place in Committee on 22 February 2024. A date for Stage 3 proceedings is yet to be confirmed.

## THE ENVIRONMENT (AIR QUALITY AND SOUNDSCAPES) (WALES) ACT 2024

The Air Quality and Soundscapes Act is now law. It was sealed by the First Minister and received Royal Assent on 14 February 2024.



# UPCOMING WORK

- **The Sustainable Farming Scheme:** In March, the Committee will hold a stakeholder event as well as evidence sessions with external stakeholders in relation to the Welsh Government's Sustainable Farming Scheme. More information will be published on the Committee's website in due course.

- **Annual reports:** During the spring term the Committee will consider its annual reports on Transport for Wales, Natural Resources Wales and the National Infrastructure Commission for Wales.

# THE COMMITTEE IN THE MEDIA

Here is a list of relevant articles featuring
the Climate Change committee in the media:

- **BBC:** Illegal sewage spills / Apology for Wales football fans over post-match rail delays
- **Caerphilly Observer:** Transport for Wales bosses quizzed by Senedd Members
- **Wales Online:** Welsh Water told it needs to up its game after leaks, pollution and supply issues
- **Nation Cymru:** Environmental regulation by Welsh Government 'inadequate', say MSs
- **Nation Cymru:** Senedd committee seeks answers from Welsh Government on mining at Ffos-y-Fran
- **Route One:** Bus franchising in Wales is zero-emission catalyst, minister claims

SeneddClimate@senedd.wales

https://x.com/SeneddClimate

0300 200 6565

www.senedd.wales/SeneddClimate

Don't want emails from us anymore? If you no longer wish to receive newsletters from the Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee, please respond to this email with the word "unsubscribe".